



Ein cyf/Our ref: Dinasyddion yr UE/EU Citizens

Rhagfyr 2019

Annwyl Syr/Fadam,

Rydyn ni yn Llywodraeth Cymru yn gwybod bod llawer o gyflogwyr yn pryderu am effaith y newidiadau i bolisïau mewnfudo ar ddinasyddion yr UE yn eu gweithlu. Mae'n bosibl y bydd staff yn pryderu am eu statws yn y dyfodol ac yn ansicr ynghylch y prosesau newydd mae angen eu dilyn.

Rydyn ni'n ysgrifennu i roi gwybodaeth am hawliau dinasyddion yr UE, yr AEE (Ardal Economaidd Ewropeaidd) a'r Swistir sy'n byw yng Nghymru a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfraniad mae dinasyddion yr UE yn ei wneud at Gymru. Rhaid bod yr ansicrwydd ynghylch Brexit yn peri cryn bryder ac anhawster yn ystod y cyfnod hwn.

Rydyn ni am roi sicrwydd i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru eu bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru a bydd eu hawliau a'u statws yn cael eu diogelu. Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth rhad ac am ddim i helpu dinasyddion yr UE i baratoi ar gyfer Brexit, ac i barhau i fyw a gweithio yng Nghymru. Mae'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) yn galluogi dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd gael y statws mewnfudo a fydd ei angen arnyh nhw i fyw, gweithio ac astudio yn y DU.

Fel cyflogwr, rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n rhannu'r wybodaeth sydd ynghlwm ag unrhyw dinasyddion yr UE sy'n gweithio ichi, ac yn deall sut y gallwch chi barhau i gyflawni eich rhwymedigaethau i'r cyflogaion hynny. Nid yw'n ofynnol i ddinasyddion yr UE ddweud wrth eu cyflogwyr a ydyn nhw wedi gwneud cais i'r EUSS.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae dolenni i ffynonellau cyngor a cymorth eraill ar gyfer dinasyddion yr UE yn yr atodiad.

Mae copi o'r wybodaeth hon ac adnoddau defnyddiol eraill ar gael ar wefan Paratoi Cymru Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/paratoi-cymru>.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', enclosed in a thin black rectangular border.

Ken Skates AC/AM

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Dinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir

'Mae dinasyddion yr UE' yn cyfeirio at ddinasyddion yr UE ac eithrio'r DU. Mae hyn yn cynnwys Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Croatia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Tsiec, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Rwmania, Slofacia, Slofenia, Sbaen a Sweden.

Mae'r AEE yn cynnwys Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy. Nid yw'r Swistir yn rhan o'r AEE ond mae'n aelod o'r Farchnad Sengl – mae hyn yn golygu bod gan ddinasyddion y Swistir yn un hawl i fyw a gweithio yn y DU â dinasyddion eraill yr AEE.

Bydd angen i ddinasyddion Gweriniaeth Iwerddon [barhau i ddangos eu hawl i weithio yn y DU](#) fel y mae nawr.

Cymorth ar gyfer dinasyddion yr UE gan Lywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cymorth ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n gwneud cais o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog y mae angen cyngor cyfreithiol arnyn nhw. Mae gwybodaeth am wasanaethau sy'n darparu cyngor diduedd yn rhad ac am ddim ar gael ar wefan yr EUSS (y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE)

<http://www.eusswales.com/cy/>.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi cyflogwyr, a byddwn ni'n cynnal digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Bydd gwybodaeth am fynegi diddordeb yn y digwyddiadau hyn ar gael yn

<https://llyw.cymru/paratoi-cymru-brexite/busnes-economi> ac

<https://businesswales.gov.wales/brexit/cy>

Cymorth ar gyfer dinasyddion yr UE gan Lywodraeth y DU

Mae'r Swyddfa Gartref wedi datblygu pecyn cymorth ar gyfer cyflogwyr

<https://www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-employer-toolkit>.

Dinasyddion yr UE sy'n cyrraedd y DU cyn 1 Ionawr 2020

Ar hyn o bryd mae gan bob dinesydd yr UE, yr AEE a'r Swistir sy'n preswyllo yng Nghymru (ac aelodau o'u teuluoedd sy'n gymwys) yr un hawl i fyw a gweithio a chael mynediad at wasanaethau â dinasyddion y DU. Mae dinasyddion Gweriniaeth Iwerddon, sydd o fewn yr Ardal Deithio Gyffredin, hefyd yn parhau i fod â'r un hawliau a dinasyddion y DU.

Felly, bydd hawliau dinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir yn parhau i fod yr un peth ag y maen nhw ar hyn o bryd, ac ni fydd angen i gyflogwyr, landlordiaid na darparwyr gwasanaethau eraill wahaniaethu rhwng gwahanol grwpiau o Ddinasyddion yr UE.

Pan fydd yn ofynnol ichi gynnal gwiriad statudol¹ bydd yn ddigon i ddinasyddion yr UE ddangos eu hawl i wasanaethau drwy ddangos:

- pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol² os yw'r unigolyn yn ddinesydd yr UE, yr AEE neu'r Swistir
- cerdyn preswyllo biometrig os nad yw'r unigolyn yn ddinesydd yr UE, yr AEE na'r Swistir, ond ei fod yn gymwys fel aelod o deulu dinesydd yr UE, yr AEE neu'r Swistir
- prawf o'u statws o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE neu'r Cynllun Caniatâd i Aros Dros Dro i Ddinasyddion Ewropeaidd, gan ddefnyddio gwasanaeth gwirio hawl i weithio ar-lein y Swyddfa Gartref

Mae dyletswydd ar gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau eraill i beidio â gwahaniaethu yn erbyn dinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir.

Dinasyddion yr UE sy'n cyrraedd ar ôl y diwrnod ymadael ond cyn 1 Ionawr 2021

Bydd rhaid i ddinasyddion yr UE sy'n cyrraedd ar ôl y diwrnod ymadael ond cyn 1 Ionawr 2021, ac sy'n dymuno aros yn y DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020, wneud cais am Ganiatâd i Aros Dros Dro i Ddinasyddion Ewropeaidd.

Dinasyddion yr UE sy'n cyrraedd o 1 Ionawr 2021 ymlaen

O 1 Ionawr 2021 ymlaen, bydd rhaid i ddinasyddion yr UE sy'n dod i'r DU i fyw, gweithio neu astudio fodloni gofynion newydd o dan system fewnfudo newydd y DU. Mae manylion y system hon yn cael eu llunio gan Lywodraeth y DU. Bydd gan bobl o Weriniaeth Iwerddon, sydd o fewn yr Ardal Deithio Gyffredin, yr un hawliau â dinasyddion y DU.

Cyngor ar wneud cais o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Bydd gan ddinasyddion yr UE sy'n preswyllo'n gyfreithlon yn y DU cyn y diwrnod ymadael ac aelodau cymwys o'u teuluoedd yr hawl i aros yn y DU am gyfnod amhenodol, ar yr amod

¹Mae'r gwiriadau statudol sy'n berthnasol yng Nghymru yn cynnwys gwiriad hawl i weithio gan gyflogwr, gwiriadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM, gwiriadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gwiriadau'r DVLA ac ati.

² <https://www.gov.uk/government/publications/no-deal-immigration-arrangements-for-eu-citizens-moving-to-the-uk-after-brexit/no-deal-immigration-arrangements-for-eu-citizens-arriving-after-brexit#fnref:3:1>

eu bod wedi gwneud cais y dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Ar hyn o bryd, y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yw 31 Rhagfyr 2020 os ydyn ni'n ymadael heb gytundeb, neu 30 Mehefin 2021 os oes cytundeb.

Mae cymorth ychwanegol wedi cael ei wneud ar gael i roi cyngor a chymorth i bobl sy'n agored i niwed. Os ydych chi'n credu bod dinesydd yr UE sy'n gweithio ichi yn agored i niwed neu mewn perygl, gwnewch yn siŵr ei fod yn cael mynediad at gymorth dynodedig <http://www.eusswales.com/cy/>.